# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts , Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (NJ)<br>Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu a Swyddog achos ar gyfer ceisiadau 1 a 2 (IJ)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Cynghorydd Dylan Rees (ar gyfer cais 1), Cynghorwyr Margaret Roberts ac Ieuan Williams (ar gyfer cais 2) |

---

**1 FPL/2020/150 - CAIS LLAWN AR GYFER CODI 9 T? YNGHYD Â DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG AR DIR YN LÔN NEWYDD, LLANGEFNI**

Rhoddwyd amlinelliad o’r cais i Aelodau. Dangoswyd fideo i’r Aelodau o’r safle gan gynnwys y fynedfa o Lôn Newydd a’r olygfa i gefn y teras o dri eiddo ar Isgraig. Dangoswyd gosodiad arfaethedig y safle ynghyd â chynllun y safle i Aelodau hefyd.

Tynnodd yr Aelodau lleol sylw at faterion yn ymwneud â pharcio a thraffig yn yr ardal leol, yn enwedig pan fydd Canolfan Ebeneser yn cael ei defnyddio. Hysbyswyd Aelodau bod pedwar lle parcio yn cael eu cynnig at ddefnydd cymunedol fel rhan o’r cais.

**2 FPL/019/217 CAIS LLAWN AR GYFER CODI 17 O ANHEDDAU FFORDDIADWY, ADEILADU DWY FYNEDFA NEWYDD AR GYFER CERBYDAU A 3 MYNEDFA AMAETHYDDOL NEWYDD, GOSOD GORSAF BWMPIO YNGHYD Â GWAITH TIRLUNIO MEDDAL A CHALED AR DIR GER CRAIG Y DON ESTATE A CHERRY TREE CLOSE, BENLLECH.**

Rhoddwyd amlinelliad o’r cais i Aelodau. Dangoswyd fideo i Aelodau o’r llwybr i safle’r cais o’r A5025 ffordd Amlwch a dangoswyd y ddwy fynedfa arfaethedig o Cherry Street Close a stad Craig y Don. Dangoswyd gosodiad a chynllun y safle i’r Aelodau hefyd.

Nododd yr Aelodau lleol bryderon am yr effaith ar y Safle Bywyd Gwyllt lleol. Codwyd cwestiynau am ddraenio hefyd. Hysbyswyd Aelodau, o ganlyniad i’w faint y byddai’r cais yn destun proses ganiatad SuDS ac y byddai dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio mewn ffordd a reolir tuag at gefn y safle er budd y safle Bywyd Gwyllt.

**Cynghorydd Nicola Roberts**
**Cadeirydd**